

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**Ebrill 12, 2016**

**Presennol:** Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1559 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriad Dewi Jones.

1560 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1561 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1562 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1af o Fawrth 2016.

1563 **Materion y Clerc:**

- i. Cafwyd un ymateb i sylwadau'r Cyngor am oryrru, yn mynegi bod camau wedi eu cymryd i atal hyn.
- ii. Tynnwyd sylw Adran y Priffyrdd at goeden beryglus yng Nghwm Union.

1564 **Adroddiad y Cyngorydd Sir:** mynychodd Alan Jones Evans ac Arwel Lloyd Jones gyfarfod gyda swyddogion Cartrefi Cymunedol Gwynedd gan godi pryderon unwaith eto am ymddygiad sy'n aflonyddu ar ddedwyddwch eraill. Er bod y Cyngor wedi crybwyll y materion hyn dros gyfnod hir, ac wedi ceisio cydweithio gyda CCG i ddenu pobl leol i ymgartrefu yn y fflatiau, mae'r un cwynion cyffredinol am ymddygiad sy'n aflonyddu yn parhau. Cafwyd addewid bod gwelliannau i amgylchedd yr ystâd yn parhau o dan ystyriaeth.

Mae'r Cyngorydd Alan Jones Evans yn parhau i drafod gyda'r swyddog Colin Jones fesurau i wella diogelwch wrth y neuadd.

1565 Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod Her Gwynedd 14/3/16 lle amlinellwyd y toriadau i wasanaethau a gytunwyd gan Gyngor Gwynedd. Mae'r rhain yn cynnwys lleihad yn y gyllideb ar gyfer cynnal llwybrau a lleihad yn amllder y gwasanaeth glanhau pentrefi.

1566 Rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad o'r hyfforddiant gan Un Llais Cymru ar gyllid llywodraeth leol a fynychodd gyda'r Swyddog Ariannol.

1567 **Y Noson Goffi:** cytunwyd i roi'r eitem ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

1568 **Materion Eiddo'r Cyngor**

Y Fynwent: derbyniwyd cofnodion is-bwyllgor 23/3/16; derbyniwyd argymhelliad is-bwyllgor 12/4/16 ar drefniadau torri gwair yn 2016.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn Roberts

---

Cytunwyd i ysgrifennu at Gwynant Roberts i ddiolch iddo am osod y postyn a'r gât wrth faes parcio'r fynwent.

### 1569 **Materion ariannol –**

- i. Archwilwyd cyfrifon 2015-16 a'u cael yn gywir. Diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am ei gwaith. Cadarnhawyd penderfyniad y Cyfarfod Blynnyddol ym Mai 2015 i apwyntio John Roberts fel Archwilydd Mewnol.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: trydan i'r toiledau; clo, cadwyn ac arwydd i faes parcio'r fynwent.

### 1570 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned – dim.**

1571 **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am y Gytundeb sy'n cael ei pharatoi ar gyfer eleni ac am y cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i adfer peth o hwyl hen ffair Y Bala.

### 1572 **Gohebiaeth:**

#### **1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

i Nodwyd derbyn Papur Trafod ar gyfer Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri

ii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais NP5/71/330A sef codi adeilad amaethyddol yng Nghefn Gwyn, Llanuwchllyn

iii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais NP5/71/459A sef cadw estyniad deulawr ym Mrynlech Uchaf, Llanuwchllyn

iv Ystyriwyd cais NP5/71/423C, sef cais ôl weithredol i barhau i ddefnyddio tir fel darparwr busnes gwasanaethau diogelwch yn Yr Hen Iard Glo, Llanuwchllyn. Cytunwyd i fynegi "Dim Gwrthwynebiad", ac ar yr un pryd tynnu sylw'r Awdurdod Cynllunio nad ydyw'r Cyngor yn cytuno gyda rhai o'r datganiadau a wneir yn y cais. Hefyd cytunwyd i dynnu sylw'r Parc i'r hawl tramwy i dir Pengeulan.

v Cytunwyd i nodi Dim Gwrthwynebiad i gais ôl weithredol NP5/71/394C i gadw balconi yn 2 Cae'r Aran.

#### **2 Gwynedd:**

Derbyniwyd gwybodaeth am finiau halen a neges gan Drefnydd Un Llais Cymru. Cytunodd Alan Jones Evans i barhau i bwysio ar y mater.

#### **3 Llywodraeth Cymru:**

Derbyniwyd gwybodaeth am

Ddeddf Cynllunio Cymru 2015

Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn Roberts

---

Costau a threuliau 2016-17  
Newidiadau i'r Côt Ymddygiad

**4. Erail:**

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am gyfraniad ariannol oddi wrth  
Teulu Gwalia  
Cymdeithas Cantref  
Ffederasiwn CFFI Meirionnydd  
Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint  
Clwb Ffermwyr Ieucan Glannau Tegid  
Adran Bentref Llanuwchllyn  
Clwb Pêl Droed Llanuwchllyn  
Llên y llannau  
Theatr Bara Caws  
Eisteddfod Gylch Penllyn  
Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn

Cyn ymadael, dymunwyd yn dda iawn i Alan Jones Evans a Rhiannon ar achlysur eu priodas.  
Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Blyneddol: 3/5/16 yn y Neuadd Bentref